# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 29 Ionawr 2014**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(176)v2

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 3, 5 i 13 a 15. Cafodd cwestiynau 2, 3 a 10 eu grwpio. Tynnwyd cwestiwn 4 yn ôl. Ni ofynnwyd cwestiwn 14. Atebwyd cwestiwn 5 a 8 gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.

### 2 Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Dechreuodd yr eitem am 14.21

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

### 3 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru - adroddiad dilynol

Dechreuodd yr eitem am 15.05

**NDM5415 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad dilynol y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 15.56

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5416 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynigion ar gyfer mewnfuddsoddi a amlinellwyd yn nogfen Ceidwadwyr Cymru 'Cyrchfan Cymru'.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 41 | 53 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi ansawdd gwael y data a gasglwyd ar lefel genedlaethol (Cymru) ar gyfer Buddsoddi Uniongyrchol Tramor ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddarparu data cynhwysfawr ar Fuddsoddi Uniongyrchol Tramor gan gynnwys sectorau, tarddiad a gwerth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod amgylchiadau economaidd wedi newid yn sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf a bod yn rhaid i strategaeth Llywodraeth Cymru newid hefyd yn unol â hynny.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad oes gan UK Trade & Investment ganolfan yng Nghymru na strategaeth ar gyfer Cymru er bod ganddynt un ar gyfer Lloegr a'r Alban.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 39 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi ymchwiliad presennol y Pwyllgor Menter a Busnes i ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi sylwadau Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes ar 14 Mawrth 2012 nad yw Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i gael y brand yn gywir ar gyfer Cymru, ac yn gresynu nad oes dim strategaeth brandio wedi'i chyflwyno ers hynny.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**
**NDM5416 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynigion ar gyfer mewnfuddsoddi a amlinellwyd yn nogfen Ceidwadwyr Cymru 'Cyrchfan Cymru'.

Yn nodi ymchwiliad presennol y Pwyllgor Menter a Busnes i ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at hybu masnach a mewnfuddsoddi.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 5 | 27 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

### 5 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.51

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5417 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi canfyddiadau'r Cynllun Bwyd Ysgol y byddai prydau ysgol am ddim i bob plentyn mewn ysgolion cynradd yn arwain at welliannau cadarnhaol o ran iechyd, cyrhaeddiad addysgol a chydlyniant cymdeithasol ac yn helpu teuluoedd gyda chostau byw.

2. Yn nodi mai 21% yn unig o fabanod yng Nghymru sydd ar hyn o bryd yn cael pryd bwyd ysgol am ddim a thua 24% yn unig o ddisgyblion oed cynradd yn 2012-13 a gymerodd frecwast ysgol am ddim.

3. Yn nodi y bydd Cymru yn cael dros £62 miliwn o gyllid refeniw canlyniadol Barnett ar gyfer 2014-16 a thros £4 miliwn o gyllid cyfalaf yn 2014-15 yn dilyn y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU ar brydau ysgol am ddim i bob disgybl oed babanod yn Lloegr.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio cyllid canlyniadol Barnett i gyflwyno prydau ysgol am ddim yn gyffredinol i fabanod yng Nghymru, er mwyn i bob plentyn bach gael pryd bwyd ysgol poeth, iach i hybu iechyd, addysg a lles disgyblion.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 0 | 49 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 1, dileu popeth ar ôl 'Cynllun Bwyd Ysgol' a rhoi yn ei le: ‘bod plant sy’n bwyta bwyd maethlon yn dod ymlaen yn well yn yr ysgol’.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 44 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 4, dileu popeth ar ôl ‘refeniw canlyniadol Barnett’ a rhoi yn ei le: ‘yn y ffordd fwyaf effeithiol a sicr o wella safonau a lles ac i gyhoeddi rhaglen o’i bwriadau yng nghyswllt pob darpariaeth ar gyfer bwyd ysgol'. Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 44 | 54 |

Gwrthodwyd gwelliant 2.

Gan fod y Cynulliad wedi gwrthod y cynnig heb ei ddiwygio, ac wedi gwrthod y gwelliannau a gyflwynwyd i'r cynnig, gwrthodwyd y cynnig.

**CYFNOD PLEIDLEISIO**

Dechreuodd yr eitem am 17.44

**6 Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 17.50

NDM5413 Eluned Parrott (Canol De Cymru)

Cyflogaeth i Raddedigion - Atal y Draen Dawn i Loegr

Creu swyddi a chyfleoedd yng Nghymru i'r graddedigion gorau a mwyaf deallus o Brifysgolion Cymru

Daeth y cyfarfod i ben am 18:13

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 4 Chwefror 2014**